

Codau Ymarfer ar wariant gan ymgyrchwyr a phleidiau gwleidyddol: ymgyngoriad

Y dyddiad cau ar gyfer yr ymgyngoriad hwn yw dydd Mawrth 4 Rhagfyr. Dylid anfon ymatebion i:

Codes@electoralcommission.org.uk

Medi 2018

Crynodeb

Mae deddfwriaeth etholiadau yn galluogi'r Comisiwn Etholiadol i baratoi Codau Ymarfer ar wariant etholiad ar gyfer pleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr. Dogfen statudol sy'n rhoi canllawiau ymarferol manwl ar sut i gydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol yw Cod Ymarfer.

Bydd y ddau God a gynigir yn yr ymgynghoriad hwn, y naill ar gyfer gwariant gan ymgeiswyr a'r llall ar gyfer gwariant gan bleidiau gwleidyddol, yn sicrhau mwy o dryloywder mewn perthynas â gwariant ac adrodd ar dreuliau mewn etholiadau. Bydd y Codau'n helpu i gynyddu hyder pleidleiswyr yn y system cyllid gwleidyddol ac etholiadau.

Mae'r Codau'n nodi'r hyn sydd wedi'i gynnwys a'r hyn nad yw wedi'i gynnwys yn y categorïau o wariant ar gyfer etholiadau a restrir yn y deddfwriaeth. Mae'r Codau hefyd yn ein galluogi i roi canllawiau ar yr achosion a'r amgylchiadau pan ystyrir bod gwariant at ddibenion ethol ymgeisydd.

Pan fyddant wedi'u cwblhau'n derfynol, caiff y Codau hyn eu cyflwyno i'r Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet i'w cymeradwyo (gyda neu heb addasiadau) cyn cael eu cyflwyno gerbron Senedd y DU i'w cymeradwyo. Bydd y Codau'n gymwys i etholiadau y mae gan Senedd y DU gyfrifoldeb deddfwriaethol amdanynt.

Pan fyddant mewn grym, bydd yn rhaid i bleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr ystyried y Codau, yn enwedig wrth drefnu eu hymgyrchoedd ac wrth gwblhau eu ffurflenni gwariant ar ôl etholiad.

Ein nodau wrth baratoi'r Codau yw:

- Rhoi canllawiau i ymgeiswyr, eu hasiantiaid a phleidiau gwleidyddol ar ba eitemau gwariant sy'n cyfrif tuag at y terfynau gwario ac y dylid adrodd arnynt
- Rhoi mwy o eglurhad i bleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr ynglŷn â phryd y dylai gwariant (gan gynnwys gwariant tybiannol) gael ei gynnwys ar ffurflen ymgeisydd a phryd y dylai gael ei gynnwys ar ffurflen plaid gwleidyddol
- Sicrhau yr adroddir ar wariant mewn ffordd eglur a chyson, gan gynnwys ymgyrchu digidol gan bleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr.

Senedd yr Alban sy'n gyfrifol am y gyfraith mewn perthynas ag etholiadau Senedd yr Alban ac etholiadau llywodraeth leol yn yr Alban. Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n gyfrifol am y gyfraith mewn perthynas ag etholiadau'r Cynulliad ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru. Lle nad oes cyfnod rheoleiddio cyfun, byddai angen Codau ar wahân ar gyfer unrhyw rai o'r etholiadau hynny. Rydym yn trafod hyn gyda Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd, er mwyn deall sut y gallai hyn weithio ochr yn ochr â'r cynlluniau a ddatblygir ganddynt ar gyfer diwygiadau etholiadol. Byddem yn cynnal ymgynghoriadau ar wahân ynghylch y Codau hynny.

Sut i ymateb

Daw'r ymgynghoriad i ben **ddydd Mawrth 4 Rhagfyr**. Mae cwestiynau'r ymgynghoriad wedi'u rhestru ar dudalen 7. Anfonwch eich atebion ac unrhyw sylwadau eraill i:

Codes@electoralcommission.org.uk

Gellir hefyd gyflwyno ymatebion drwy'r post i:

Codes of Practice Consultation
The Electoral Commission
3 Bunhill Row
London EC1Y 8YZ

Gellir hefyd gyflwyno ymatebion dros y ffôn i Denise Bottom ar 020 7271 0638

1 Beth yw diben yr ymgynghoriad hwn?

- 1.1 Y Comisiwn Etholiadol yw'r corff annibynnol sy'n goruchwyllo etholiadau ac yn rheoleiddio cyllid gwleidyddol yn y DU. Rydym yn gweithio i hyrwyddo hyder y cyhoedd yn y broses ddemocrataidd a sicrhau ei huniondeb.
- 1.2 Fel rhan o'n cylch gwaith, rhoddodd Senedd y DU y pŵer i ni baratoi canllawiau ar ffurf Codau Ymarfer statudol ar yr hyn sydd wedi'i gynnwys ac nad yw wedi'i gynnwys yn y categorïau o wariant ar gyfer ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol.
- 1.3 Mae'r pŵer ar gyfer y Cod i ymgeiswyr wedi'i nodi yn Atodlen 4A o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (Deddf 1983). Nodir pŵer tebyg i baratoi Cod i bleidiau gwleidyddol yn Atodlen 8 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA).
- 1.4 O dan y pwerau hyn, rydym wedi paratoi Cod i ymgeiswyr a Chod i bleidiau sydd wedi'u hatodi i'r ddogfen hon.
- 1.5 Mae'r ymgynghoriad hwn ar y Codau arfaethedig yn ceisio barn er mwyn sicrhau eu bod mor glir a chynhwysfawr â phosibl a hybu cysondeb wrth adrodd. Pan fydd y broses ymgynghori wedi'i chwblhau a'n bod wedi gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r Codau, cânt eu cyflwyno i'r Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet ac yna eu cyflwyno gerbron y Senedd.

2 Beth yw'r Codau Ymarfer?

Sut mae gwariant etholiad yn gweithio?

- 2.1 Caiff gwariant gan bleidiau ac ymgeiswyr yn y cyfnod cyn etholiadau ei reoleiddio. Mae'r gyfraith yn pennu terfynau ar wahân ar faint y gall ymgeiswyr a phleidiau ei wario ar ymgyrchu. Hefyd, ceir rheolaethau sy'n pennu pwy all fynd i wariant a thalu amdano er mwyn sicrhau bod gwariant etholiad o fewn y terfynau cyfreithiol.
- 2.2 Ar ôl etholiad cyffredinol, rhaid i bleidiau adrodd ar eu gwariant ar ymgyrchu i ni a rhaid i ymgeiswyr ddatgan eu gwariant i Swyddogion Canlyniadau. Mae gwariant ar ymgyrchu, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn hyrwyddo'r ymgeisydd neu'r blaid, ond ceir achosion lle mae'r un gweithgarwch ymgyrchu'n hyrwyddo'r naill a'r llall, felly caiff y gwariant ei rannu rhwng y ddwy ffurflen.
- 2.3 Hefyd, ceir adegau pan fydd ymgeiswyr yn defnyddio eitemau y mae eu cefnogwyr (fel eu plaid neu ymgyrchydd nad yw'n blaid) wedi'u trosglwyddo neu eu darparu iddynt am lai na'u gwerth ar y farchnad ac mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i swm gael ei drin fel gwariant gan yr ymgeisydd. Gelwir hyn yn wariant tybiannol. Rhaid i wariant tybiannol ymgeisydd hefyd gael ei gynnwys ar ei ffurflen gwariant. Mae rheol debyg yn gymwys i bleidiau gwleidyddol. Rhaid adrodd ar wariant tybiannol plaid ar ffurflen y blaid.
- 2.4 Mae'n ofynnol i bleidiau ac ymgeiswyr adrodd ar wariant sy'n perthyn i gategoriâu penodol. Amlinellir y categorïau hyn yn y ddeddfwriaeth. Mae rhai o'r categorïau yr un peth ar gyfer pleidiau ac ymgeiswyr ac mae rhai'n wahanol. Er enghraifft, mae'r ddwy set o reolau yn cynnwys categorïau o'r enw 'hysbysebu' a 'deunydd digymell'. Fodd bynnag, mae'r rheolau ar gyfer pleidiau gwleidyddol hefyd yn cynnwys categorïau ar wahân ar gyfer 'darllediadau pleidiau gwleidyddol' a 'maniffestos'.

Beth mae'r Codau yn ei wneud?

- 2.5 Mae'r Codau'n nodi'r hyn y dylid ei gynnwys ym mhob categori o wariant, yn ogystal â rhestru'r hyn na chaiff ei gynnwys. Cynlluniwyd y Codau i roi enghreifftiau eglurhaol yn hytrach na rhestr gynhwysfawr.
- 2.6 Yn benodol, mae'r Codau'n ceisio mynd i'r afael â'r canlynol:
 - yr amgylchiadau pan ddylai rhywbeth gael ei gynnwys ar ffurflen ymgeisydd a phan ddylai plaid wleidyddol adrodd ar rywbeth.
 - pryd a ble y dylid adrodd ar wariant ar ddulliau ymgyrchu digidol.

- 2.7 Llunnir y Codau o fewn cwmpas y fframwaith deddfwriaethol. Nid oes gennym y pŵer i ychwanegu categorïau eraill o wariant, dim ond amlinellu'r hyn a gwmpesir gan y categorïau presennol.

Pam rydym yn llunio Codau?

- 2.8 Wrth ysgrifennu'r Codau hyn, rydym wedi defnyddio ein profiad o reoleiddio etholiadau ac adolygu ffurflenni gwariant. Rydym wedi holi pleidiau am eu profiadau ac wedi ymgorffori eu barn. Rydym hefyd am gasglu rhagor o adborth drwy'r ymgynghoriad hwn.
- 2.9 Nod y codau yw sicrhau bod y rheolau mor glir a chynhwysfawr â phosibl. Dylai hyn ei gwneud hi'n haws i ymgeiswyr a phleidiau gydymffurfio â'r gyfraith. Bydd y canlyniadau yn gwella tryloywder, tegwch a chysondeb, ac felly'n gwella hyder y cyhoedd ac ymgyrchwyr. Er enghraifft:
- Bydd y Codau'n hybu cysondeb wrth adrodd, fel bod pawb yn gwybod beth i'w ddisgwyl mewn ffurflen gwariant gan ymgeisydd neu blaid wleidyddol. Dylai pleidiau ac ymgeiswyr ei chael hi'n haws cydymffurfio â'r gyfraith a dylai hyn ei gwneud hi'n haws i bobl gymharu ffurflenni a gwariant, a chadarnhau bod y rheolau'n cael eu dilyn. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at fwy o dryloywder mewn perthynas â gwariant etholiad.
 - Ceir llawer o sylwebaeth ynglŷn â gwariant ar ymgyrchu digidol mewn etholiadau. Mae'r Codau yn un ffordd o sicrhau y gallwn nodi'n glir ble y dylid adrodd ar arian a gaiff ei wario ar ymgyrchu digidol mewn etholiadau.
- 2.10 Gan y bydd y Codau'n cael cymeradwyaeth statudol cyn cael eu cyhoeddi, byddant yn creu disgwyliad clir ynghylch y ffordd y bydd y gyfraith ar wariant etholiad yn cael ei chymhwyso. Mae hyn yn atgyfnerthu'r fframwaith rheoleiddio mewn perthynas â gwariant mewn etholiadau.
- 2.11 Dim ond Codau i bleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr rydym yn eu paratoi ar hyn o bryd. Er i ni ystyried paratoi Cod i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau ar yr adeg hon, rydym wedi dod i'r casgliad mai ein ffordd arferol o roi canllawiau fyddai'r ffordd orau ymlaen mewn perthynas â'r rheolau i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau ar hyn o bryd.

I ba etholiadau y bydd y Codau hyn yn gymwys?

- 2.12 Mae'r cyfrifoldebau am gyfraith etholiad naill ai 'wedi'u cadw yn ôl' neu 'wedi'u datganoli'. Ystyr 'wedi'u cadw yn ôl' yw mai Senedd y DU sy'n gyfrifol am wneud y gyfraith. Dim ond i etholiadau 'wedi'u cadw yn ôl' y bydd y Codau hyn yn gymwys. Caiff y Codau Ymarfer hyn eu paratoi mewn perthynas ag etholiadau cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig yn bennaf, a byddant hefyd yn gymwys i nifer o etholiadau eraill.

- 2.13 Bydd y Cod i bleidiau gwleidyddol yn gymwys yn y mathau canlynol o etholiadau:
- Etholiadau cyffredinol Senedd y DU
 - Etholiadau Cynulliad Gogledd Iwerddon
- 2.14 Lle mae cyfnod a reoleiddir mewn grym ar gyfer Etholiad Cyffredinol Senedd y DU, mae'r Cod hwn yn cwmpasu gwariant o dan a72 o PPERA ym mhob etholiad perthnasol. Mae hyn yn cynnwys
- Etholiadau Maerol Awdurdodau Cyfunol
 - Etholiadau ar gyfer Awdurdod Llundain Fwyaf
 - Etholiadau maerol yn Lloegr
 - Etholiadau lleol yng Nghymru
 - Etholiadau ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu
 - Etholiadau lleol yn yr Alban
 - Etholiadau lleol yng Nghymru
 - Unrhyw is-etholiad
- 2.15 Lle mae cyfnod a reoleiddir cyfun yn weithredol o dan Atodlen 9 o PPERA, bydd y Cod hwn hefyd yn cwmpasu'r etholiadau canlynol:
- Senedd yr Alban
 - Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- 2.16 Bydd y Cod i ymgeiswyr yn gymwys yn y mathau canlynol o etholiadau:
- Etholiadau cyffredinol Senedd y DU
 - Etholiadau Cynulliad Gogledd Iwerddon
 - Etholiadau Maerol Awdurdodau Cyfunol
 - Etholiadau ar gyfer Awdurdod Llundain Fwyaf
 - Etholiadau maerol yn Lloegr
 - Etholiadau lleol yng Nghymru
 - Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (i'w gadarnhau)
 - Is-etholiadau yn unrhyw un o'r uchod
- 2.17 Senedd y Alban sy'n gyfrifol am y gyfraith mewn perthynas ag etholiadau Senedd yr Alban ac etholiadau llywodraeth leol yn yr Alban. Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n gyfrifol am y gyfraith mewn perthynas ag etholiadau'r Cynulliad ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru. Mae'r cyfrifoldeb am y rheolau ar gyfer yr etholiadau hyn 'wedi'i ddatganoli'.
- 2.18 Lle nad oes cyfnod rheoleiddio cyfunol yn mynd rhagddo o dan Atodlen 9 o PPERA, byddai angen Codau ar wahân ar gyfer unrhyw rai o'r etholiadau hynny. Rydym yn trafod hyn gyda Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd, er mwyn deall sut y gallai hyn weithio ochr yn ochr â'r cynlluniau a ddatblygir ganddynt ar gyfer diwygiadau etholiadol. Byddem yn cynnal ymgynghoriadau ar wahân ynghylch y Codau hynny, ac yn bwydo'r hyn a ddysgwyd o'r ymarfer ymgynghori hwn i mewn hefyd.

3 Cwestiynau'r ymgynghoriad

- 3.1 Rydym yn ceisio eich barn ar b'un a ydym wedi cyflawni'r nodau a nodwyd gennym. Atebwch y cwestiynau isod yn eich ymateb i'r ymgynghoriad. Mae croeso i chi anfon unrhyw sylwadau sydd gennych y tu hwnt i'r cwestiynau rydym wedi'u gofyn.

Yr iaith yn y Codau

- 3.2 Canllawiau statudol yw'r Codau. Cânt eu cyflwyno gerbron y Senedd. Mae hyn yn golygu bod angen i ni ddefnyddio iaith ffurfiol. Fodd bynnag, rydym hefyd am i'r Codau fod yn hawdd eu darllen a'u deall. Rydym wedi ceisio taro cydbwysedd rhwng y ffurfioldeb sy'n ofynnol ar gyfer dogfen statudol ac iaith sy'n hawdd ei deall.

Cwestiynau:

C1.A yw'r Codau'n hawdd eu deall? A oes unrhyw rannau o'r Codau y gellid eu gwneud yn haws eu darllen?

Costau ymgyrchu digidol

- 3.3 Cafodd y categorïau cyfreithiol o wariant eu pennu gan y Senedd ar adeg pan oedd gwariant ar hysbysebu digidol a gwariant ar ymgyrchu yn digwydd ar lefel llawer is. Serch hynny, mae'r categorïau presennol yn cwmpasu llawer o fathau o wariant ar ddulliau ymgyrchu digidol.
- 3.4 Rydym am gynnwys enghreifftiau yn y Codau hyn. Rydym wedi defnyddio iaith ddisgrifiadol yn hytrach na defnyddio termau sy'n boblogaidd ar hyn o bryd wrth siarad am wariant ar weithgareddau digidol, fel y gall y Codau addasu i newidiadau ieithyddol yn y dyfodol ac fel nad oes angen eu diweddarau'n barhaus.
- 3.5 Yn ddiweddar, gwnaethom gyhoeddi adroddiad ar y twf mewn gwariant ar ymgyrchu digidol mewn etholiadau a refferenda. Yn yr adroddiad hwnnw¹ gwnaethom ddweud y byddai'r Codau'n rhoi eglurhad ynghylch adrodd ar wariant ar weithgareddau digidol.

Cwestiynau:

C2.A yw'r Codau'n cwmpasu pob math o wariant ar ymgyrchu digidol mewn etholiadau?

¹ [Ymgyrchu digidol: Cynyddu tryloywder i bleidleiswyr](#), Mehefin 2018, y Comisiwn Etholiadol

C3. A oes gennych unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwella'r iaith ddisgrifiadol yn y Codau er mwyn iddynt gwmpasu datblygiadau technolegol posibl yn y dyfodol yn well?

Penderfynu ble i roi cyfrif am eitem o wariant

Beth sy'n cyfrif fel gwariant gan ymgeisydd a beth sy'n cyfrif fel gwariant gan blaid?

- 3.6 Bwriedir i'r Codau i bleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr roi canllawiau clir ar yr hyn y dylid ei gynnwys ar ffurflen gwariant ymgeisydd a'r hyn y dylid ei gynnwys ar ffurflen gwariant plaid.
- 3.7 Mae'r Cod i ymgeiswyr yn cwmpasu achosion ac amgylchiadau lle bo gwariant yn cyfrif fel gwariant gan ymgeisydd. Mae'r adran hon i'w gweld ar dudalennau 19-20 o'r Cod i ymgeiswyr o dan y pennawd 'Pryd yr ystyrir bod gwariant ar eitem yn wariant yr eir iddo at ddibenion ethol ymgeisydd?'.
3.8 Nod hyn yw helpu i wneud penderfyniad lle y ceir ansicrwydd ynghylch p'un a yw rhywbeth yn cyfrif fel gwariant gan ymgeisydd neu wariant gan blaid. Bydd yn helpu i benderfynu yn erbyn pa ffurflen a therfyn gwariant y dylid adrodd ar rywbeth.

Cwestiynau:

C4. A yw'r Codau'n nodi'n glir pa ffurflen gwariant y dylid ei defnyddio i adrodd ar wahanol eitemau o wariant?

C5. A fydd i'r Codau unrhyw ganlyniadau eraill o ran y rheolau ar wariant gan ymgeiswyr a phleidiau?

C6. A allwch awgrymu enghreifftiau o achosion ac amgylchiadau y dylid ystyried eu cynnwys yn y Codau?

Pa gategori y dylid ei ddefnyddio i adrodd ar eitem o wariant?

- 3.9 Mae'r ddeddfwriaeth yn rhoi rhestr o gategoriâu o wariant y mae'n rhaid adrodd arnynt. Mae'r Codau'n disgrifio'r hyn y dylid ei gynnwys o dan bob categori ar ffurflen gwariant.
- 3.10 Weithiau, gallai eitem o wariant edrych fel y gellid ei chynnwys o fewn un neu ddau gategori.
- 3.11 Er enghraifft, lle bo plaid wedi defnyddio data am bleidleiswyr i anfon deunydd atynt. Mae angen adrodd ar gostau casglu a dadansoddi'r data hynny. Gellid cynnwys y costau naill ai o dan 'hysbysebu' neu 'deunydd digymell'.
- 3.12 Mae'r Codau'n nodi y dylid cynnwys y gost hon o dan 'deunydd digymell'. Bwriedir i hyn sicrhau eglurder a chysondeb wrth adrodd.

Cwestiynau:

C7. A yw'r Cod i ymgeiswyr yn nodi'n glir pa gategori o wariant y dylid ei ddefnyddio i adrodd ar eitem o wariant?

C8. A yw'r Cod i bleidiau gwleidyddol yn nodi'n glir pa gategori o wariant y dylid ei ddefnyddio i adrodd ar eitem o wariant?

C9. A oes gennych unrhyw sylwadau am y ffordd y mae'r Codau'n cynghori pa gategori y dylid ei ddefnyddio mewn sefyllfa lle bo dau gategori'n berthnasol?

Gorbenion

3.13 Mae'r Codau'n rhoi enghreifftiau o gostau gorbenion sy'n uniongyrchol gysylltiedig â chynnal gweithgareddau ymgyrchu, fel costau trydan, ffôn a swyddfeydd.

- Mae'r Cod i ymgeiswyr yn cynnwys pennawd ar wahân ar gyfer costau swyddfeydd a chostau gweinyddol. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffordd y mae'r ddeddfwriaeth wedi'i nodi, gyda chategori penodol ar gyfer y costau hynny.
- Dywed y Cod i bleidiau gwleidyddol y dylid adrodd ar gyfran o'r gost o dan y categori perthnasol o wariant, am nad yw'r ddeddfwriaeth yn cynnwys categori ar wahân ar gyfer y costau hynny.

Cwestiynau:

C10. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill am y ffordd y mae'r Codau'n ymdrin â chostau gorbenion?

Sylwadau pellach

3.14 Rydym yn croesawu unrhyw sylwadau pellach sydd gennych mewn perthynas â'r Codau.

Cwestiynau:

C11. A oes gennych unrhyw awgrymiadau o ran mathau eraill o wariant y dylid eu cynnwys yn fwy manwl o dan benawdau'r categorïau?

C12. A oes gennych unrhyw sylwadau am y cynnwys, strwythur neu iaith a ddefnyddir yn y Codau?

C13. A hoffech wneud unrhyw sylwadau pellach am y Codau?